# Cyflogi aelodau o'r teulu

23 Gorffennaf 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 26 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

> *Yn ôl cofrestr buddiannau'r Aelodau, mae Andrew RT Davies yn cyflogi aelod o'i deulu fel ei gynorthwyydd personol, ac mae wedi gwneud hynny ers 2007. Hoffwn ofyn am yr eitemau canlynol o wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â'r unigolyn dan sylw:*
> 1. *Faint o negeseuon e-bost sydd yn y ffolder eitemau a anfonwyd yng nghyfrif Microsoft Outlook y cyflogai hwn?*
> 2. *Pryd oedd y tro diwethaf i'r unigolyn dan sylw fewngofnodi i'w broffil TG y Cynulliad?*
> 3. *Faint o negeseuon e-bost sydd heb eu darllen ar hyn o bryd yng nghyfrif Microsoft Outlook y cyflogai hwn.*
> 4. *Sawl gwaith y mae'r cyflogai hwn wedi defnyddio'i bas i gael mynediad i ystâd y Cynulliad yn y ddwy flynedd ddiwethaf?*

Isod mae ein hymatebion i'ch cais.

1. O dan adran 3(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf), "information is held by a public authority if— (a) it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person".
   Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn cadw gwybodaeth mewn cysylltiad â gohebiaeth e-bost, e.e. eitemau a anfonwyd o gyfrifon staff yr Aelodau ar ran Aelodau'r Cynulliad. Felly, ni ellir ystyried bod gwybodaeth a gedwir gan y Cynulliad ar ran person arall (ar ran Aelodau'r Cynulliad yn yr achos hwn) wedi'i chadw gan y Cynulliad at ddibenion y Ddeddf. Yn yr amgylchiadau hyn, ni all y Cynulliad ddatgelu'r wybodaeth hon.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe baech yn nodi na ystyrir Aelodau'r Cynulliad fel 'awdurdodau cyhoeddus' at ddibenion y Ddeddf, ac felly nid oes gorfodaeth arnynt i ddatgelu'r wybodaeth hon, ond mae croeso i chi ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd wedi'u cyhoeddi i gysylltu ag Andrew RT Davies.

2. Gweler yr ateb i gwestiwn 1.
3. Gweler yr ateb i gwestiwn 1.
4. Mae'r wybodaeth y gwnaed cais amdani yn wybodaeth bersonol. Felly mae'r wybodaeth, fel 'gwybodaeth bersonol', wedi'i heithrio o dan adran 40 o'r Ddeddf. Mae'r wybodaeth a gedwir wedi'u heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40 – byddai datgelu data personol yn torri'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r Ddeddf. Mae rhagor am y rhesymeg sy'n sail i hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

**Adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – byddai datgelu data personol yn torri rhwymedigaethau'r GDPR**

Y diffiniad o ddata personol yn y GDPR yw:

'any information relating to an identified or identifiable person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person.'

Mae'r wybodaeth y gwnaed y cais amdani, sy'n ymwneud â sawl gwaith y mae aelod o staff cymorth un o Aelodau'r Cynulliad wedi defnyddio'i bas diogelwch i fynd i mewn i adeiladau'r Cynulliad yn benodol i grŵp o unigolion, sy'n golygu y gellid adnabod yr unigolyn dan sylw.

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data o fewn y GDPR. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Caiff yr egwyddor sy'n berthnasol yn yr achos hwn ei hamlinellu isod.

Mae'r egwyddor ddiogelu data gyntaf, fel y nodir yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, yn nodi:

'Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency').'

Wrth benderfynu a fyddai'n deg datgelu'r wybodaeth, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolion ac unrhyw fudd dilys sy'n deillio o'r datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Caiff staff cymorth eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Aelod Cynulliad ac maent yn ddarostyngedig i broses fetio cyn iddynt gael pas adeilad. Maent yn atebol i'r AC sy'n eu cyflogi.

Serch fy marn ynghylch sicrhau tegwch, es ymlaen i drafod Erthygl 6 o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Erthygl 6 yn berthnasol, heblaw Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei phrosesu ar yr amod a ganlyn:

'processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overriden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.'

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- ni ddylai'r datgeliad anwybyddu buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid testun y data.

Rydym wedi ystyried yn ofalus y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: cyfrifoldebau'r Cynulliad o dan y Ddeddf; eich hawl chi, o dan amodau'r Ddeddf, i gael mynediad at y wybodaeth hon; natur rolau'r unigolion a'u hawl hwy i breifatrwydd; a buddiant y cyhoedd yn sgîl datgelu'r wybodaeth hon.

Ni fyddai gan yr aelodau o staff dan sylw ddisgwyliad rhesymol y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhyddhau ac nid oes ganddynt rôl gyda'r cyhoedd (yn wahanol i gynrychiolydd etholedig, dyweder).

Felly, ni wnaethom ystyried y ddwy ran arall o'r profion. Ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2.